

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 13eg Mai, 2019, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 8.50 p.m. hyd 8.35 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)

Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Siôn Williams

Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir

8. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Diolchodd Y Cyngorydd Glyn Roberts am y fraint o gael bod yn Gadeirydd y Cyngor ac am eiriau caredig, Y Cyngorydd Glenys Williams, y cyn-Gadeiryddes.

Llongyfarchodd Y Cyngorydd Elin Hughes am fod yn fuddugol ar y rhaglen deledu 'Rhannu' a dymunodd yn dda iddi yn y rownd nesaf.

Yr un modd, llongyfarchodd y Clarc ar gael ei derbyn i'r Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

9. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan unrhyw aelod ddiddordeb yn yr eitemau oedd i'w trafod.

10. O DDRWS I DDRWS

Croesawyd Mrs. Meinir Jones o O Ddrws i Ddrws i egluro'n union beth oedd cefndir y cais am gymorth ariannol tuag at ariannu teithiau i'r Feddygfa ym Motwinnog. Rhoddodd fraslun o gefndir y cais sef yn dilyn cau y Feddygfa yn Abersoch cafodd O Ddrws i Ddrws grant gan y Bwrdd Iechyd i redeg cynllun peilot am dri mis i fynd a cheifion o'r ardal honno i'r Feddygfa ym Motwinnog ar foreau Mercher. Yn anffodus ni fu digon o alw am y gwasanaeth.

Ddechrau eleni mae O Ddrws i Ddrws wedi ceisio paratoi cynllun peilot arall sef i ofyn i bob Cyngor Cymdeithas yn yr ardal (eisoes wedi gwneud y cais ac hefyd cais i Neuadd Abersoch) gyfrannu £500 er cynnal gwasanaeth cludo cleifion i'r Feddygfa o'r ardal mae'r Cyngor yn gwasanaethu. Y bwriad yw i godi £2 y pen oddi ar y cleifion.

Gofynnwyd i Mrs. Jones gael cadarnhad gan y Feddygfa ym Motwinnog os y byddant yn barod i roi apwyntiad y diwrnod cynt i gleifion oedd yn dymuno manteisio ar wasanaeth O Ddrws i Ddrws, ac yna byddai'r Cyngor yn barod i ystyried eu cais ymhellach.

Diolchwyd i Mrs. Jones am ddod i'r cyfarfod ac ymadawodd a'r ystafell.

11. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 8fed Ebrill, 2019.

Cynigwyd gan Y Cyngorydd Carys H. Evans ac eilwyd gan Y Cyngorydd Ifor Owen.

12. CEISIADAU CYNLLUNIO

Nid oedd unrhyw gais i law.

13. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

(a) **Penderfynwyd** tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at gyflwr y ffordd sy'n arwain o Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes.

(b) **Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth yn atebion y Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, i gwynion anfonwyd i'w sylw ym mis Mawrth ag Ebrill eleni. (Bydd copi o'r llythyrau yn ffurfio rhan o'r cofnodion).

(c) **Cyflwynwyd** atebiad pellach Martin Daniel Williams, Cymhorthydd Technegol, Cyngor Gwynedd y byddai arwydd 'Eglwys/Church' yn cositio £250 ond fod modd cael arwydd 'Eglwys y Santes Fair/St. Mary's Church' a byddai hwn yn costio tua £350.

Penderfynwyd gofyn am bris terfynol am yr arwydd gyda'r enw'n llawn arno ac hefyd edrych i fewn i sillafiad cywir yr Eglwys (Mair neu Fair).

(ch) **Cyflwynodd** Y Cyngorydd Gareth Williams gais am gael symud yr arwydd 30mya i fyny ochr uchaf i Llys Meddyg ym Motwinnog hyn oherwydd y perygl sy'n bodoli gyda'r gor-yrru sydd i lawr am Gapel Rhydbach/Y Feddygfa.

14. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymunedd Gogledd Cymru.

15. AWDURDOD I DALU

Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:

Cyngor Gwynedd:

Gosod a llenwi bin halen ar Allt Coch Moel, Bryncroes

£182.49 + TAW

Llenwi bin halen ger Pendref, Sarn Mellteyrn

£ 55.20 + TAW